# Ffilm Cymru Wales
# Recriwtio i'r Bwrdd 2023

## Cynnwys

**Gofynion Mynediad** ........ 1
**Recriwtio a Phenodiadau** ........ 2
**Beth yw'r fantais i fi?** ........ 3
**Y Stori Hyd Yma** ........ 4
**Am beth rydyn ni'n chwilio** ........ 6
**Rolau a Chyfrifoldebau** ........ 7
**Sgiliau a Rhinweddau** ........ 8
**Tegwch a Chynhwysiant** ........ 9
**Ceisiadau** ........ 10

## Gofynion Mynediad

I ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft, unigolion B/byddar, trwm eu clyw, Anabl, niwroamrywiol a phobl sy'n colli golwg, mae cymorth ar gael i gwblhau cais.

Cysylltwch â ni i roi gwybod sut gallwn ni helpu. Er enghraifft, gallwn dalu costau dehonglydd BSL ar gyfer cyfarfod â ni cyn gwneud cais, neu gymorth ysgrifennu ar gyfer ymgeiswyr dyslecsig. Byddwn yn cael ein harwain gennych chi.

I'r rhai sydd â gofynion mynediad, gallwn hefyd dderbyn y ffurflenni cais drwy'r post, neu atebion mewn fformatau amgen fel fideo byr neu gyfres o sleidiau. Dylid cytuno ar y fformat gyda'n tîm cyn cyflwyno cais.

Cysylltwch â hayley@ffilmcymruwales.com i drafod eich gofynion cyn gwneud cais.

Rydyn ni'n croesawu ceisiadau yn Gymraeg neu'n Saesneg.

## Recriwtio a Phenodiadau

Mae Ffilm Cymru Wales yn chwilio am dri neu bedwar unigolyn sy'n cynnig amrywiaeth o fewnwelediad proffesiynol a phrofiadau bywyd i ymuno â'n Bwrdd yn ystod y chwe mis nesaf.

Mae ein hymrwymiadau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi'u plethu ar draws ein sefydliad – gallwch ddarllen ein Cynllun Gweithredu Ffilm i Bawb fan hyn – ac rydyn ni eisiau sicrhau bod ein Bwrdd yn parhau i ddatblygu ein ffordd o feddwl ac ymarfer, gan gynrychioli'r rhai rydyn ni yma i'w gwasanaethu.

Dylai ymgeiswyr rannu angerdd am sector a diwylliant ffilm yng Nghymru sy'n gynhwysol, yn deg ac yn wyrdd, gan ddarparu gwerth economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac addysgol ledled Cymru.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi ystod eang o brofiad ar draws ein Bwrdd, ac nid ydym yn disgwyl i bob Aelod gael cefndir mewn ffilm neu'r sector creadigol hyd yn oed. Os ydych yn credu y gallwch ychwanegu gwerth at ein gwaith, hoffem glywed wrthych, p'un ai ydych chi'n gwbl newydd yn ymuno â Bwrdd neu os oes gennych flynyddoedd lawer o brofiad.

Fel arfer, gofynnwn i aelodau'r Bwrdd wasanaethu am dymor o dair blynedd, y gellir ei ehangu am dymor pellach. Serch hynny, rydyn ni'n awyddus nad yw hyd gwasanaeth yn rhwystr, felly byddwn hefyd yn ystyried cyfnodau byrrach o flwyddyn neu ddwy. Mae'n bosibl dechrau fesul cam o Haf 2023 ymlaen. Nodwch yn eich cais os hoffech gael eich ystyried am dymor byrrach.

Disgwylir i Aelodau gymryd rhan weithredol o fewn Ffilm Cymru Wales, boed hynny'n fynychu dangosiadau, gwneud cyflwyniadau ac eirioli ar ran y cwmni, neu fynychu cyfarfodydd a pharatoi ar eu cyfer. Rydyn ni'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r ymrwymiad y mae Aelodau'n ei wneud i 'roi'n ôl' i Gymru, y sector neu ysgogwyr eraill sy'n eu denu i'r rôl. Rydyn ni'n ceisio gwneud hyn yn hawdd i bob aelod gyda chyfarfodydd Bwrdd yn gymysgedd o rai wyneb yn wyneb ac ar-lein yn ystod y flwyddyn. Mae aelodau ar draws y Bwrdd yn gwirfoddoli ac yn arwain ar feysydd o arbenigedd/diddordeb penodol.

Nid ydym eisiau eithrio gweithwyr llawrydd na phobl heb gyflog o'n Bwrdd. Felly, gall aelodau'r Bwrdd gael tâl o £35 yr awr, yn amodol ar gynllun talu wrth ennill (PAYE) a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol yn dibynnu ar y symiau a dalwyd, ynghyd â threuliau teithio a threuliau teg eraill. Cynigir hyn drwy gytundeb honorariwm blynyddol dewisol.

Ar gyfartaledd, mae aelodau'r Bwrdd yn tueddu i dreulio'r hyn sy'n gyfwerth â 8-10 diwrnod y flwyddyn ar ddyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd.

## Beth yw'r fantais i fi?

Bydd gan bob aelod o'r Bwrdd eu rhesymau eu hunain dros eisiau ymuno â Ffilm Cymru. Gallai'r rhain gynnwys ymdeimlad o fod eisiau rhoi rhywbeth yn ôl i sector y maen nhw'n gweithio ynddo, neu uniaethu â'n gwerthoedd wrth i ni adeiladu amgylchedd cynhwysol, gwyrdd a theg; yr egni a'r dysgu y maen nhw eu hunain yn elwa ohono wrth fynd i'r afael â'r ystod o faterion rydyn ni'n ymwneud â nhw; awydd i gefnogi cynnwys creadigol a chelfyddydol, gweithwyr proffesiynol a mynediad at gynulleidfaoedd sy'n berthnasol ac wedi'u teilwra i Gymru.

Gallwch glywed wrth rai o gyn-aelodau'r Bwrdd ac aelodau presennol y Bwrdd fan hyn.

## Y Stori Hyd Yma

Mae Ffilm Cymru Wales wedi ymrwymo i ddatblygu sector ffilm a diwylliant ffilm sy'n gweithio i bawb ar draws Cymru.

Rydyn ni'n gwneud hyn drwy ddarparu cyllid ac arweiniad i wneuthurwyr ffilmiau profiadol a'r rhai sy'n dechrau arni, gan gynnwys profiadau sinematig cyffrous i gynulleidfaoedd ar draws Cymru, a datblygu sgiliau newydd a llwybrau gyrfa drwy amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi cynhwysol.

Ers ein sefydlu yn 2006, rydyn ni wedi buddsoddi £15.8m o gyllid y Loteri Genedlaethol mewn 89 o ffilmiau nodwedd gan dalentau o Gymru, gyda throsoledd cyllidebau o £102m gyda £32.9m yn cael ei wario yng Nghymru. Mae 25% o'n ffilmiau nodwedd sy'n cael eu cyllido yn gyd-gynyrchiadau rhyngwladol, ac mae ffilmiau o Gymru wedi'u gwerthu i 40 o diriogaethau ledled y byd.

Yn sgil pandemig COVID-19, fe wnaethom addasu gyda'r diwydiant i ddiwallu ei anghenion uniongyrchol yn y ffordd orau gyda chyngor, eiriolaeth ac addasu'r defnydd o gronfeydd. Ers hynny, rydyn ni wedi parhau i ddarparu cymorth hollbwysig i leoliadau annibynnol wrth iddyn nhw addasu i fodloni heriau'r newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd ac effaith y cynnydd mewn costau byw, tra'n cefnogi cynnydd sylweddol y genedl mewn cynyrchiadau, datblygu cyflenwad cynhwysol o dalent o newydd-ddyfodiaid drwy ein cynlluniau sgiliau a hyfforddiant, ochr yn ochr â datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae ein rhaglen hyfforddi Troed yn y Drws, sydd wedi ennill gwobrau, yn cynnig cyfleoedd newydd i bobl ddatblygu eu sgiliau trosglwyddadwy i yrfaoedd creadigol. Mae gweithio mewn partneriaeth â chymunedau yn allweddol i ddiwyg a darpariaeth y rhaglen hon, gan gynnwys gweithio gyda chymdeithasau tai,

canolfannau gwaith, awdurdodau lleol, colegau a sefydliadau celfyddydol lleol, ochr yn ochr â'r diwydiant, i gynnig lleoliadau hyfforddi i newydd-ddyfodiaid ar gynyrchiadau ffilm a theledu lleol, yn ogystal â chymorth gyda hygyrchedd, trafnidiaeth a gofal plant. Yn 2022, cawsom gyllid gan Gronfa Adfywio Cymunedol y DU i gyflwyno'r prosiect Troed yn y Drws mwyaf o ran maint ac uchelgais hyd yma, gan roi cyfle i bobl ardal Casnewydd ddechrau eu gyrfaoedd creadigol gyda chyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth mewn ffilm a theledu.

Mae ein holl waith yn cael ei arwain gan ein chwe nod cynaliadwyedd:

- **Cydraddoldeb:** Gall unrhyw un yng Nghymru gymryd rhan, gweithio a dysgu am y diwylliant ffilm yn y ffordd y maen nhw eisiau, yn lleol, heb gael eu cyfyngu gan Nodweddion Gwarchodedig, iaith neu eu statws economaidd-gymdeithasol.
- **Creadigrwydd:** Mae Cymru yn enwog bedwar ban byd am storïwyr ffilm pwerus ac annisgwyl;
- **Sgiliau:** Mae gweithio mewn partneriaeth â diwydiant, gwaith, sgiliau a gyrfaoedd ar draws y sector sgrin yng Nghymru yn werth chweil, yn gynaliadwy ac yn deg;
- **Cynaliadwyedd amgylcheddol:** Mae cyfrifoldeb amgylcheddol yn darparu ysbrydoliaeth greadigol ac yn llywio dulliau gweithio sy'n dda i'n planed a'n dyfodol ni i gyd;
- **Entrepreneuriaeth:** Cwmnïau ffilm ac unigolion hynod entrepreneuraidd yn herio'r model busnes ffilmiau traddodiadol, gan ddatblygu strategaethau incwm sy'n cefnogi eu cynaliadwyedd hirdymor mewn ffordd gyfrifol, a
- **Lles:** lle bo newid systemig yn datblygu sut rydyn ni'n gweithio i wreiddio lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd gwell.

Darllenwch fwy yn ein Cynllun Strategol.

## Am beth rydyn ni’n chwilio

Mae gennym Fwrdd brwd ac ymroddedig, y mae pob un ohonyn nhw’n cynnig mewnwelediad gwerthfawr o'u profiadau proffesiynol a’u profiadau bywyd. Rydyn ni am barhau i ehangu’r safbwyntiau hynny a herio ein ffordd o feddwl a’r ffordd rydyn ni’n ymarfer. Os oes gennych ddiddordeb mewn rhannu eich profiad a'ch persbectif, byddem wrth ein bodd yn clywed wrthoch chi. Rydyn ni’n gwahodd ceisiadau, yn benodol, gan unigolion sy’n Fyddar, yn anabl a/neu’n niwroamrywiol; siaradwyr Cymraeg, ac unigolion sy'n nodi eu bod o'r Mwyafrif Byd-eang. Rydyn ni’n awyddus hefyd i glywed wrth ymgeiswyr iau oherwydd hoffem i’r Bwrdd adlewyrchu a chynrychioli ystod eang o oedrannau, safbwyntiau a phrofiadau.

Os cewch eich denu at yr alwad hon, rydyn ni eisiau clywed wrthoch chi, beth bynnag fo'ch rôl neu'ch siwrnai broffesiynol. Mae gennym ddiddordeb mewn clywed wrth unrhyw un sy’n teimlo y gallant ychwanegu gwerth a herio’r ffordd rydyn ni’n gweithio i’n helpu i wella ein hunain. Wedi dweud hynny, mae gennym rai syniadau am feysydd profiad yr hoffem eu hannog, gan gynnwys:

**Cyllid:** yn brofiadol mewn rheolaeth ariannol a chyfrifon, boed yn y diwydiannau creadigol neu beidio;

**Arddangos yng Nghymru:** yn gyfarwydd â thirlun newidiol arddangos ffilmiau, naill ai mewn sinemau neu leoliadau celfyddydau cymysg, dangosiadau mewn gwyliau neu yn y gymuned, gyda syniadau ar addasu’r arlwy i gynulleidfaoedd gwahanol a newid o ran ymddygiad;

**Adnoddau Dynol**: yn brofiadol mewn rheoli newid ac yn gyfarwydd â'r her o gefnogi arweinyddiaeth mewn Busnesau Bach a Chanolig ac amgylcheddau sy'n seiliedig ar brosiectau;

**Cynrychiolydd neu gomisiynydd platfform:** yn effro i newidiadau o ran llwybrau i gyllid a marchnata yn y DU ac yn rhyngwladol ac sydd â

diddordeb yn y ffordd y gall sefydliadau cyhoeddus a masnachol weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â blaenoriaethau cytûn, fel cynyddu sylfaen criwiau yn gynhwysol ac addasu i arferion cynaliadwy.

Gallai meysydd posib eraill o ddiddordeb gynnwys asiantaethau talent, entrepreneuriaid digidol, Materion Cyhoeddus a marchnata strategol. Nid yw'r meysydd hyn yn gyfyngedig. Nid oes gennym yr holl atebion ac nid ydym am golli cyfle i gwrdd â rhywun arbennig! Os ydych yn uniaethu â'n gwerthoedd a'n cenhadaeth, cysylltwch â ni.

## Rolau a Chyfrifoldebau

Bydd aelodau yn gyfrifol am lywodraethiant Ffilm Cymru, gan oruchwylio esblygiad y cwmni a datblygiad ehangach ein polisiau a'n strategaethau i gefnogi'r sector. Yn benodol, mae aelodau yn:

- Rhannu eu syniadau a'u profiad i siapio, cymeradwyo ac ailadrodd cynlluniau a pholisïau strategol Ffilm Cymru Wales, wedi'i lywio gan adolygiad gweithredol a data a mewnbwn gan gynrychiolwyr y diwydiant a ffrindiau beirniadol;
- Fel rhan o'r Bwrdd ar y cyd, darparu llywodraethiant ariannol a strategol – adolygu a chymeradwyo'r blaenoriaethau strategol blynyddol, y cynlluniau, y gyllideb, y cyfrifon rheoli chwarterol a'r Cyfrifon Statudol blynyddol;
- Gwneud penderfyniadau cyllido ar y cyd am geisiadau o £50,000 neu fwy mewn ymateb i argymhellion y weithrediaeth;
- Hyrwyddo Ffilm Cymru Wales yn frwd, ei waith a'r talentau rydyn ni'n eu cynrychioli drwy fynychu digwyddiadau, cyflwyniadau lefel uchel a mynychu cyfarfodydd strategol lefel uchel;
- Gall arwain hefyd ar feysydd gwaith penodol, o bryd i'w gilydd, ar sail gorchwyl a gorffen.

Rydyn ni'n cynnal o leiaf pedwar (chwarterol) cyfarfod bob blwyddyn.

Yn ddiweddar, rydyn ni wedi penderfynu treialu cyfarfodydd rheolaidd sy'n fyrrach ac yn amlach. Mae hyn oherwydd ein bod am fod yn fwy ymatebol i anghenion cynyrchiadau a rhoi mwy o amser i'r Bwrdd glywed yn uniongyrchol gan randdeiliaid, er mwyn llywio'r strategaeth.

Disgwylir i gyfarfodydd Bwrdd yn ystod y flwyddyn gynnwys hyd at bedwar cyfarfod ar-lein (hyd at ddwy awr yr un), a hyd at dri chyfarfod wyneb yn wyneb yng Nghymru.

Bydd o leiaf un cyfarfod wyneb yn wyneb bob blwyddyn yn cael ei gynnal y tu allan i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae hyn oherwydd bod y Bwrdd yn gwerthfawrogi'r cyfle i gwrdd â phobl a sefydliadau sy'n gweithio yn y sector ar draws gwahanol rannau o Gymru.

Fel arfer, dylai aelodau fynychu holl gyfarfodydd y Bwrdd (er ein bod yn cydnabod y gall gwyliau, salwch a digwyddiadau bywyd olygu bod yn rhaid i aelod anfon ymddiheuriadau o bryd i'w gilydd). Rydyn ni'n gwerthfawrogi ymgysylltiad rheolaidd a chyfraniadau ystyrlon gan aelodau'r Bwrdd sydd hefyd yn cael eu hannog i fynychu digwyddiadau cyhoeddus achlysurol eraill lle bo'n bosib.

Gall Aelodau hefyd gynnig eu hunain ar gyfer darnau penodol o waith, fel is-grwpiau gorchwyl a gorffen sydd wedi'u targedu.

## Sgiliau a Rhinweddau

Rydyn ni'n chwilio am ymgeiswyr sydd ag:

- Agwedd agored a cholegol at herio arferion ac annog cyfraniadau a phartneriaethau

- Ymrwymiad i ddatblygu sector cynaliadwy sy'n adlewyrchu ac yn gwasanaethu ein cymdeithas yn llawn, yn amgylcheddol gyfrifol ac yn entrepreneuraidd;
- Diddordeb brwd mewn datblygu buddion ffilm yn gymdeithasol, diwylliannol, addysgol a/neu economaidd ledled Cymru;
- Parodrwydd i ddarparu arweiniad lefel uchel, gan arwain at ganlyniadau heriol ond cyraeddadwy, gyda dealltwriaeth o'r dirwedd wleidyddol a diwylliannol rydyn ni'n gweithredu ynddi;
- Awydd i wneud gwahaniaeth;
- Dealltwriaeth o siapio targedau strategol, yn seiliedig ar dystiolaeth, sy'n caniatáu ar gyfer arloesi;
- Gwerthfawrogiad o atebolrwydd a chyfrifoldebau angenrheidiol arian cyhoeddus;
- Wynebu'r dyfodol – yn barod i addasu i'r her nesaf a chreu cyfleoedd;
- Bod yn agored a hael wrth rannu profiadau uniongyrchol – boed o fewn y sector, neu'n ehangach, i helpu i lywio ble a sut gellir newid ar gyfer dyfodol gwell.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi profiadau bywyd a phrofiadau proffesiynol sy'n deillio o holl gymunedau a rhanbarthau gwahanol Cymru. Rydyn ni'n gwerthfawrogi siaradwyr Cymraeg (yn rhugl neu'n ddysgwyr) ar draws ein Bwrdd, er nid yw'n hanfodol i ymgeiswyr siarad Cymraeg.

## Tegwch a Chynhwysiant

Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cynrychioli cymdeithas yng Nghymru ac yn annog ceisiadau sy'n ehangu cynrychiolaeth, persbectif a phrofiadau bywyd ymhellach ar ein Bwrdd. Dyma [wybodaeth bellach am Ffilm i Bawb.]

ffilm CYMRU WALES

## Ceisiadau

Gwnewch gais drwy lythyr, neu drwy ddulliau eraill os cytunir ar hynny mewn ymateb i gais hygyrchedd, gan ddisgrifio'r hyn sy'n eich denu i'r swydd, yr hyn y gallech ei gyfrannu i'r rôl, a phryd yn ddelfrydol yr hoffech ddechrau. Byddwn mewn cysylltiad i drefnu sgyrsiau gydag unigolion sydd â diddordeb yn ystod yr wythnosau nesaf, cyn cyfarfod â phanel bach o gynrychiolwyr y Bwrdd/gweithrediaeth.

Bydd ein dewis terfynol yn cael ei arwain gan y Sgiliau a'r Rhinweddau rydym wedi'u hamlinellu, a thrwy gael profiadau bywyd a phrofiadau proffesiynol eang ar draws y Bwrdd. Gan ddibynnu ar hyn a nifer y ceisiadau a ddaw i law, mae'n bosibl na fyddwn yn gallu cwrdd â phob ymgeisydd na phenodi pob ymgeisydd.
Rydyn ni'n debygol o amrywio dyddiadau cychwyn penodiadau newydd yn ystod y misoedd nesaf, felly gallwn fod yn hyblyg o ran dyddiadau cychwyn.

Dylid anfon ceisiadau at sylw ein Cadeirydd, Yr Athro Ruth McElroy c/o hayley@ffilmcymruwales.com

Neu drwy e-bostio: Ffilm Cymru Wales, Uned 6, Tramshed Tech, Stryd Pendyris, Caerdydd, CF11 6BH.

Os hoffech drafod y rôl ymlaen llaw, cyfeiriwch eich ymholiad at y Prif Weithredwr pauline@ffilmcymruwales.com neu ffoniwch 02921 679369, a all hefyd eich rhoi mewn cysylltiad â'n Cadeirydd, sy'n hapus i ymateb i ymholiadau.

**Gwnewch gais erbyn dydd Llun 5ed Mehefin 2023.**

**Bydd cyfweliadau – wyneb yn wyneb, neu drwy gynhadledd fideo drwy drefniant, yn cael eu cynnal ddydd Gwener 23ain Mehefin.**